**Rhif: WG48357**

Llywodraeth Cymru

# Ymgynghoriad – Crynodeb o'r Ymatebion ac Ymateb y Llywodraeth i'r ymgynghoriad ar reoleiddio'r proffesiwn Rheoli Adeiladu a chyrff Rheoli Adeiladu

Hydref 2023

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

OGL © Hawlfraint y Goron 2023, Llywodraeth Cymru,
WG48357, ISBN Digidol 978-1-83504-810-8

# Cynnwys

1. Cyflwyniad ..... 1
2. Ymatebion i'r Ymgynghoriad – Trosolwg ..... 1
3. Ymdrin â'r ymatebion ..... 1
4. Ymatebion i'r ymgynghoriad – crynodeb byr ac ymateb y Llywodraeth ..... 2
5. Y Camau Nesaf ..... 27

# 1. Cyflwyniad

1.1. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad a gyhoeddwyd ar 21 Ebrill 2023 mewn perthynas â 'Rheoleiddio'r proffesiwn Rheoli Adeiladu a chyrff Rheoli Adeiladu'. Mae wedi'i strwythuro yn unol â'r cwestiynau a ofynnwyd o gwestiwn 1 i 47. Roedd pob cwestiwn arall yn ymwneud â manylion personol.

1.2. Safbwyntiau a fynegwyd gan ymatebwyr i'r ymgynghoriad sydd yn y crynodeb hwn ac nid ydynt o reidrwydd yn adlewyrchu safbwyntiau Llywodraeth Cymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymateb i bob cwestiwn.

# 2. Ymatebion i'r Ymgynghoriad – Trosolwg

2.1. Cafwyd 11 o ymatebion i'r ymgynghoriad a chafwyd un ymateb a oedd yn cynnwys sylwadau cyffredinol. Rydym yn ddiolchgar i bawb a ymatebodd. Mae'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad wedi cael eu darllen a'u hystyried fel rhan o'r dadansoddiad hwn.

2.2. Gofynnwyd i ymatebwyr a gwblhaodd y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad nodi pa fath o sefydliad yw eu sefydliad nhw o blith y 12 math a nodwyd ar y ffurflen (gan gynnwys opsiwn 'arall' hunanddynodedig). Mae'r tabl isod yn dangos nifer yr ymatebion a gafwyd gan bob sector.

| Math o Sefydliad | Nifer yr Ymatebwyr | % |
|---|---|---|
| Adeiladwr / Datblygwr | 0 | 0% |
| Dylunydd / Peiriannydd / Syrfëwr | 2 | 18% |
| Awdurdod Lleol | 0 | 0% |
| Arolygydd Cymeradwy | 2 | 18% |
| Arolygydd Adeiladu – Arolygydd Cymeradwy | 0 | 0% |
| Adran Rheoli Adeiladu Awdurdod Lleol | 2 | 18% |
| Pensaer | 0 | 0% |
| Gweithgynhyrchydd / cadwyn gyflenwi | 0 | 0% |
| Gweithiwr proffesiynol ym maes adeiladu | 0 | 0% |
| Corff proffesiynol | 1 | 9% |
| Meddiannydd Adeilad / Preswylydd | 0 | 0% |
| Parti arall sydd â diddordeb | 4 | 36% |

# 3. Ymdrin â'r ymatebion

3.1. Darparwyd ffurflen ymateb safonol er hwylustod, ond, lle na wnaeth ymatebwyr ddefnyddio'r ffurflen, priodolwyd sylwadau i'r cwestiwn mwyaf

priodol. Hefyd, roedd gan rai o'r cwestiynau bedwar ateb posibl; ydw/cytuno, nac ydw/anghytuno, ddim yn siŵr a ddim yn gymwys.

3.2. Lle nad yw ymatebwyr wedi ateb gan ddefnyddio'r ymatebion safonol a gynigiwyd, ond eu bod wedi mynegi eu barn yn glir wrth ateb, mae'r ymateb hwnnw wedi'i adlewyrchu yn y dadansoddiad ystadegol. Er enghraifft, lle defnyddiodd ymatebydd yr ymadrodd 'Rwy'n cefnogi'r cynnig' nodwyd ydw fel ei ateb. Lle nad oedd ymateb clir, nodwyd 'dim ymateb' yn y dadansoddiad ystadegol, a chafodd yr ymatebion eu cynnwys yn y crynodeb o sylwadau.

# 4. Ymatebion i'r ymgynghoriad – crynodeb byr ac ymateb y Llywodraeth

## 4.1. Cwestiwn 1

4.1.1. Yn eich barn chi, a yw cyfnod pontio o 6 mis yn briodol?

**Crynodeb o'r ymatebion**

| | | |
|---|---|---|
| **Ydy** | 4 | 36% |
| **Nac ydy** | 4 | 36% |
| **Ddim yn siŵr** | 2 | 18% |
| **Ddim yn gymwys** | 1 | 1% |
| **Dim ymateb** | 0 | 0% |

4.1.2. Roedd canran gyfartal yn cytuno ac yn anghytuno â chyfnodau pontio o chwe mis. Y themâu cyffredin a welwyd yn yr ymatebion oedd diffyg eglurder ac ansicrwydd ynghylch y gofynion cofrestru a'r risg o drosglwyddo gwaith anghyflawn o arolygwyr cymeradwy anghofrestredig i gymeradwywyr rheoli adeiladu cofrestredig ac awdurdodau lleol.

**Ymateb y Llywodraeth**

4.1.3. Rydym wedi ystyried yr ymatebion cymysg i'r cwestiwn hwn, a'r graddau y mae'r mater hwn yn codi yng Nghymru. Ar y cyfan, ystyrir bod cyfnod pontio o chwe mis yn gymesur. Mae'r pryderon ynghylch y diffyg eglurder canfyddedig a'r ansicrwydd ynghylch cofrestru wedi'u nodi ac rydym yn eu deall ac, felly, byddwn yn cyfathrebu ymhellach ynglŷn â'r pwyntiau hyn.

## 4.2. Cwestiwn 2

4.2.1. A ydych yn cytuno bod y cynnig na ddylai arolygydd cymeradwy (nad yw wedi'i gofrestru fel cymeradwywr rheoli adeiladu cofrestredig) allu goruchwylio gwaith adeiladu risg uwch mwyach o ddiwrnod cyntaf y gyfundrefn newydd yn briodol?

**Crynodeb o'r ymatebion**

| | | |
|---|---|---|
| **Ydw** | 8 | 73% |
| **Nac ydw** | 1 | 9% |
| **Ddim yn siŵr** | 2 | 18% |
| **Ddim yn gymwys** | 0 | 0% |
| **Dim ymateb** | 0 | 0% |

4.2.2. Roedd y mwyafrif helaeth o'r ymatebion yn cytuno. Mewn un ymateb a oedd yn anghytuno, codwyd pryderon am allu awdurdodau lleol i ymgymryd â'r gwaith.

**Ymateb y Llywodraeth**

4.2.3. Roedd y mwyafrif helaeth o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig. Un o'r prif resymau dros y gofynion i gofrestru yn gymeradwywr rheoli adeiladu cofrestredig yw er mwyn profi cymhwysedd i weithio ar adeiladau risg uwch. O ystyried y lefel uwch o risg sy'n gysylltiedig â'r gwaith hwn, byddwn yn bwrw ymlaen yn unol â'r cynnig h.y. ni fydd y rhai sy'n dewis peidio â chofrestru yn gymeradwywyr rheoli adeiladu cofrestredig yn gallu goruchwylio gwaith ar adeiladau risg uwch o'r dyddiad y daw cofrestru o dan y gyfundrefn newydd yn orfodol. O ystyried mai dim ond nifer cymharol fach o adeiladau risg uwch sy'n cael eu hadeiladu/adnewyddu ar hyn o bryd yng Nghymru, rydym o'r farn y gall awdurdodau lleol ymgymryd â'r gwaith gofynnol.

4.3. **Cwestiwn 3**

4.3.1. Yn eich barn chi, a yw'n rhesymol i gymeradwywyr rheoli adeiladu cofrestredig allu goruchwylio'r broses o gwblhau gwaith adeiladu risg uwch presennol yn unol â'r trefniadau trosiannol a gynigir?

**Crynodeb o'r ymatebion**

| | | |
|---|---|---|
| **Ydy** | 10 | 91% |
| **Nac ydy** | 1 | 9% |
| **Ddim yn siŵr** | 0 | 0% |
| **Ddim yn gymwys** | 0 | 0% |
| **Dim ymateb** | 0 | 0% |

4.3.2. Roedd y mwyafrif llethol o'r ymatebion yn cytuno. Roedd themâu'r ymatebion yn ymwneud â phwyntiau technegol y gofynnwyd am eglurhad yn eu cylch. Er enghraifft, hysbysiadau diwygio a gyhoeddir i newid o waith adeiladu nad yw'n risg uwch i waith adeiladu risg uwch pan nad yw'r elfen risg uwch o'r gwaith wedi dechrau eto ond bod y gwaith sylfaenol wedi dechrau a lle bo arolygydd cymeradwy wedi cofrestru yn gymeradwywr rheoli adeiladu cofrestredig.

**Ymateb y Llywodraeth**

4.3.3. O ystyried bod y mwyafrif llethol o'r ymatebwyr yn cefnogi'r cynnig, ystyrir nad oes angen gwneud unrhyw newidiadau i'r polisi arfaethedig. Fodd bynnag, caiff y sylwadau a godwyd mewn perthynas â'r cwestiynau technegol eu hystyried ymhellach pan fo'r trefniadau trosiannol yn cael eu datblygu a phan gaiff dogfennau canllaw eu cyhoeddi (fel y bo'n briodol).

4.4. **Cwestiwn 4**

4.4.1. A ydych yn cytuno â'r dull arfaethedig o ymdrin â hysbysiadau cychwynnol os na fydd gwaith adeiladu risg uwch wedi dechrau ar ddiwedd y cyfnod pontio?

**Crynodeb o'r ymatebion**

| | | |
|---|---|---|
| **Ydw** | 7 | 64% |
| **Nac ydw** | 2 | 18% |
| **Ddim yn siŵr** | 1 | 9% |
| **Ddim yn gymwys** | 0 | 0% |
| **Dim ymateb** | 1 | 9% |

4.4.2. Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn cytuno. Mynegwyd rhai pryderon ynghylch y diffiniad o ‘dechrau’ ac ymchwydd posibl mewn gwaith newydd.

**Ymateb y Llywodraeth**

4.4.3. Nid ydym yn cynnig y dylid diffinio nac egluro ‘dechrau’ oherwydd rydym o'r farn bod dealltwriaeth dda o'r ystyr yn barod. O ystyried nifer amcangyfrifedig yr adeiladau risg uwch yng Nghymru, nid ydym yn rhagweld y bydd y cynigion newydd yn arwain at gynnydd mewn gwaith adeiladu risg uwch newydd yng Nghymru cyn diwedd y cyfnod pontio. Ar ôl ystyried yr ymatebion, rydym yn bwriadu bwrw ymlaen yn unol â'r hyn a gynigiwyd yn yr ymgynghoriad.

4.5. **Cwestiwn 5**

4.5.1. A oes gennych unrhyw sylwadau eraill mewn perthynas â'r cynigion?

**Crynodeb o'r ymatebion**

4.5.2. Cododd un ymatebydd bryder ynghylch cymhwysedd awdurdodau lleol mewn meysydd rheoli adeiladu arbenigol a dywedodd un arall y byddai'n ddymunol cael yr un safonau a gweithdrefnau cofrestru â Lloegr.

**Ymateb y Llywodraeth**

4.5.3. Rydym yn gweithio'n agos gyda'r Rheoleiddiwr Diogelwch Adeiladau yn Lloegr i gysoni safonau a gweithdrefnau cofrestru gymaint â phosibl. Wrth reoleiddio arolygwyr adeiladu, gan gynnwys y rhai sy'n gweithio i

awdurdodau lleol, bydd angen cadarnhau eu cymhwysedd mewn perthynas â'r agweddau ar reoli adeiladu y gallant eu cyflawni.

4.6. **Cwestiwn 6**

4.6.1. A ydych yn cytuno, os mai'r un endid cyfreithiol yw arolygydd cymeradwy a chymeradwywr rheoli adeiladu cofrestredig, y caiff yr hysbysiadau cychwynnol, gyda rhai eithriadau, eu trin fel hysbysiadau cychwynnol y cymeradwywr rheoli adeiladu cofrestredig?

**Crynodeb o'r ymatebion**

| | | |
|---|---|---|
| **Ydw** | 5 | 46% |
| **Nac ydw** | 4 | 36% |
| **Ddim yn siŵr** | 1 | 9% |
| **Ddim yn gymwys** | 0 | 0% |
| **Dim ymateb** | 1 | 9% |

4.6.2. Roedd ychydig o dan hanner yr ymatebwyr yn cytuno, ond roedd sawl ymatebydd yn anghytuno â'r cynnig. Codwyd rhai pryderon am ymarferoldeb hyn ac un thema gyffredin oedd diffyg eglurder ynghylch y broses gofrestru, fel pa adeiladau sy'n perthyn i ddosbarthiadau cofrestru gwahanol y cymeradwywyr rheoli adeiladu cofrestredig.

**Ymateb y Llywodraeth**

4.6.3. Caiff cymhwysedd cofrestredig y cymeradwywr rheoli adeiladu cofrestredig sy'n briodol i'r gwaith ei gynnwys o dan yr eithriadau h.y. rhaid i'r gwaith adeiladu ar yr hysbysiad cychwynnol gyd-fynd â chofrestriad y cymeradwywr rheoli adeiladu cofrestru. Fel rhan o'r safonau proffesiynol newydd, rhaid i'r cymeradwywr feddu ar y cymhwysedd gofynnol i gwblhau gwaith. Rydym yn cynnig y dylid bwrw ymlaen â'r polisi arfaethedig er ein bod yn deall y pryderon ynghylch eglurder y broses gofrestru, felly byddwn yn cyfathrebu ymhellach ynglŷn â hyn.

4.7. **Cwestiwn 7**

4.7.1. Os nad yr un endid cyfreithiol yw'r arolygydd cymeradwy a'r cymeradwywr rheoli adeiladu cofrestredig, a ydych yn cytuno y dylai fod gan arolygwyr cymeradwy gyfnod pontio i gwblhau gwaith adeiladu nad yw'n waith adeiladu risg uwch?

**Crynodeb o'r ymatebion**

| | | |
|---|---|---|
| **Ydw** | 7 | 64% |
| **Nac ydw** | 2 | 18% |
| **Ddim yn siŵr** | 1 | 9% |
| **Ddim yn gymwys** | 0 | 0% |
| **Dim ymateb** | 1 | 9% |

4.7.2. Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn cytuno. Codwyd rhai pryderon am ddiffyg eglurder ynghylch yr hyn a fydd yn digwydd i hysbysiadau cychwynnol ar ddiwedd y cyfnod pontio a'r gyfundrefn y bydd arolygwyr cymeradwy anghofrestredig yn gweithio oddi tani yn ystod y cyfnod pontio.

**Ymateb y Llywodraeth**

4.7.3. Roedd y mwyafrif o'r ymatebion yn cytuno ond nodwn y pryderon am ddiffyg eglurder, gan gynnwys ynghylch trefniadau goruchwylio arolygwyr cymeradwyo, a chaiff eglurhad pellach ei ddarparu ar y cyd â'r rheoliadau a fydd yn gwneud darpariaeth ar gyfer y trefniadau trosiannol.

4.8. **Cwestiwn 8**

4.8.1. A ydych yn cytuno bod chwe mis yn gyfnod pontio rhesymol?

**Crynodeb o'r ymatebion**

| | | |
|---|---|---|
| **Ydw** | 2 | 18% |
| **Nac ydw** | 5 | 46% |
| **Ddim yn siŵr** | 3 | 27% |
| **Ddim yn gymwys** | 0 | 0% |
| **Dim ymateb** | 1 | 9% |

4.8.2. Dywedodd y mwyafrif o'r ymatebwyr eu bod yn anghytuno neu nad oeddent yn siŵr. Codwyd rhai pryderon am y posibilrwydd y gallai gwaith adeiladu cymhleth gymryd mwy o amser na'r cyfnod pontio ac nad oes digon o wybodaeth ar gael am y broses a'r gofynion cofrestru. Cymysg fu'r ymateb i hyd y cyfnod chwe mis gyda rhai ymatebion yn dweud ei fod yn rhy hir ac eraill yn dweud ei fod yn rhy fyr.

**Ymateb y Llywodraeth**

4.8.3. Rydym yn cydnabod y bydd y gyfundrefn newydd ar gyfer rheoleiddio'r proffesiwn rheoli adeiladu yn effeithio ar rai prosiectau sydd eisoes ar waith ond credwn ei bod yn bwysig cael dyddiad gorffen ar gyfer y darpariaethau trosiannol, o ystyried pwysigrwydd y gwelliannau a gaiff eu cyflwyno gan y gyfundrefn newydd. Ar ôl ystyried yr ymatebion cymysg i'r cwestiwn hwn a chwestiwn 9, ystyrir o hyd fod chwe mis yn gyfnod pontio rhesymol ac felly ni chynigir unrhyw newid.

4.9. **Cwestiwn 9**

4.9.1. A ydych yn cytuno y byddai cyfnod pontio o hyd gwahanol yn fwy priodol?

**Crynodeb o'r ymatebion**

| | | |
|---|---|---|
| **Ydw** | 7 | 64% |
| **Nac ydw** | 3 | 27% |
| **Ddim yn siŵr** | 0 | 0% |
| **Ddim yn gymwys** | 0 | 0% |
| **Dim ymateb** | 1 | 9% |

4.9.2. Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn cytuno, ond cafwyd ymatebion a oedd yn amrywio o gyfnod pontio byrrach i rai a oedd yn dweud na ddylid cael cyfnod penodedig ac y dylid penderfynu ar y cyfnod pontio fesul achos. Thema gyffredin yn y sylwadau oedd yr awgrym y dylid casglu data ar nifer y prosiectau sy'n debygol o gymryd mwy o amser i'w cwblhau na'r cyfnod pontio arfaethedig er mwyn pennu cyfnod pontio gwahanol.

**Ymateb y Llywodraeth**

4.9.3. Cymysg fu'r ymateb i hyd y cyfnod pontio, o rai a oedd yn dweud na ddylid cael cyfnod pontio i rai a oedd yn dweud y dylid cael cyfnod llawer hwy na'r hyn a gynigir. Ni chaiff newidiadau eu gwneud i'r cynnig hwn. Cyfeiriwch hefyd at yr ymateb yn 4.8.3 uchod.

4.10. **Cwestiwn 10**

4.10.1. A ydych yn cytuno y dylid trin gwaith adeiladu risg uwch yn wahanol i waith adeiladu nad yw'n waith adeiladu risg uwch mewn achosion lle y bydd arolygydd cymeradwy (nad yw'n cofrestru fel cymeradwywr rheoli adeiladu cofrestredig) yn parhau i weithredu ar ôl i'r gyfundrefn newydd ddechrau h.y. y dylai barhau i allu goruchwylio gwaith adeiladu nad yw'n waith adeiladu risg uwch yn ystod cyfnod pontio ond nid gwaith adeiladu risg uwch?

**Crynodeb o'r ymatebion**

| | | |
|---|---|---|
| **Ydw** | 5 | 46% |
| **Nac ydw** | 2 | 18% |
| **Ddim yn siŵr** | 3 | 27% |
| **Ddim yn gymwys** | 0 | 0% |
| **Dim ymateb** | 1 | 9% |

4.10.2. Roedd hanner yr ymatebwyr yn cytuno, ac roedd y gweddill yn anghytuno neu wedi dweud nad oeddent yn siŵr. Thema gyffredin yn y sylwadau oedd y dylai'r dull gweithredu arfaethedig mewn perthynas â gwaith adeiladu risg uwch fod yn gymwys i bob darn o waith adeiladu.

**Ymateb y Llywodraeth**

4.10.3. Er mai un o'r ymatebion cyffredin oedd y dylai'r dull gweithredu arfaethedig mewn perthynas â gwaith adeiladu risg uwch fod yn gymwys i bob darn o waith adeiladu, nid ystyrir bod hyn yn briodol yng Nghymru. Er gwaethaf yr ymateb cymysg i'r cwestiwn hwn, nid ydym o'r farn bod angen gwneud unrhyw newidiadau i'r cynnig a'i fod yn taro cydbwysedd rhwng cyfyngu ar darfu a sicrhau bod gwaith adeiladu risg uwch yn cael ei oruchwylio gan y rhai sydd â chymhwysedd priodol a phrofedig.

4.11. **Cwestiwn 11**

4.11.1. **A oes gennych unrhyw sylwadau eraill ar y cynigion mewn perthynas â'r trefniadau trosiannol?**

**Crynodeb o'r ymatebion**

4.11.2. Yn y sylwadau, ailadroddwyd ymatebion a roddwyd i gwestiynau blaenorol gan gynnwys yr angen am wybodaeth gliriach am amserlenni a gofynion cofrestru, na ddylid cael unrhyw gyfnod pontio, ac y dylid penderfynu ar y cyfnod pontio fesul achos.

**Ymateb y Llywodraeth**

4.11.3. Nodwn y sylwadau ynghylch eglurder a byddwn yn sicrhau bod eglurder yn cael ei roi pan gaiff y rheoliadau eu cyhoeddi. O safbwynt cyfnodau pontio, ystyrir ei bod yn briodol diffinio'r rhain yn glir er mwyn sicrhau newid didrafferth a chlir o un gyfundrefn i un arall.

4.12. **Cwestiwn 12**

4.12.1. A ydych yn cytuno bod dirprwyo'r swyddogaethau o dan Ran 2A o Ddeddf Adeiladu 1984, ac eithrio rhai sy'n ymwneud ag awdurdodau lleol, yn opsiwn ymarferol ar gyfer sefydlu a chynnal y cofrestrau o arolygwyr adeiladu a chymeradwywyr rheoli adeiladu ar gyfer Cymru?

**Crynodeb o'r ymatebion**

| | | |
|---|---|---|
| **Ydw** | 8 | 73% |
| **Nac ydw** | 1 | 9% |
| **Ddim yn siŵr** | 1 | 9% |
| **Ddim yn gymwys** | 0 | 0% |
| **Dim ymateb** | 1 | 9% |

4.12.2. Roedd y mwyafrif sylweddol o'r ymatebwyr yn cytuno. Themâu cyffredin yn y sylwadau oedd cefnogaeth i ddull cyfun a chyson rhwng Cymru a Lloegr a dymuniad i gael un broses gofrestru.

**Ymateb y Llywodraeth**

4.12.3. Mae Llywodraeth Cymru'n cytuno y byddai dull cyfun a chyson â Lloegr o fudd i bawb, ac rydym yn gweithio'n agos gyda'r Rheoleiddiwr Diogelwch Adeiladau. Bydd llwybrau apelio gwahanol ar gyfer Cymru a Lloegr o ganlyniad i'r gwahaniaethau rhwng y darpariaethau adolygu/apelio, ond rydym yn gweithio gyda'r Rheoleiddiwr Diogelwch Adeiladau i ystyried y ffordd orau o ymdrin â hyn.

4.13. **Cwestiwn 13**

4.13.1. A oes unrhyw swyddogaethau yn cael eu cynnig i'w dirprwyo na ddylid eu dirprwyo?

**Crynodeb o'r ymatebion**

| | | |
|---|---|---|
| **Oes** | 0 | 0% |
| **Nac oes** | 8 | 73% |
| **Ddim yn siŵr** | 1 | 9% |
| **Ddim yn gymwys** | 1 | 9% |
| **Dim ymateb** | 1 | 9% |

4.13.2. Atebodd y mwyafrif sylweddol o'r ymatebwyr 'Nac oes' ac ni ddywedodd unrhyw ymatebydd na ddylai rhai o'r swyddogaethau y cynigir y dylid eu dirprwyo gael eu dirprwyo.

**Ymateb y Llywodraeth**

4.13.3. Yn sgil yr ymatebion a oedd yn cytuno â'r cynigion, nid ydym yn bwriadu tynnu unrhyw rai o'r swyddogaethau y cynigir y dylid eu dirprwyo.

4.14. **Cwestiwn 14**

4.14.1. A ydych yn cytuno y dylai hyd y cofrestriad arfaethedig ar gyfer cymeradwywr rheoli adeiladu cofrestredig fod yn bum mlynedd (fel y mae ar hyn o bryd ar gyfer arolygwyr cymeradwy)?

**Crynodeb o'r ymatebion**

| | | |
|---|---|---|
| **Ydw** | 5 | 46% |
| **Nac ydw** | 3 | 27% |
| **Ddim yn siŵr** | 1 | 9% |
| **Ddim yn gymwys** | 1 | 9% |
| **Dim ymateb** | 1 | 9% |

4.14.2. Roedd hanner yr ymatebwyr a ymatebodd yn cytuno. Roedd yr holl sylwadau eraill a gafwyd yn ymwneud â phynciau eraill nad ydynt yn gysylltiedig â'r cwestiwn hwn.

**Ymateb y Llywodraeth**

4.14.3. Nid awgrymwyd unrhyw gyfnod arall ar gyfer hyd y cofrestriad, felly nid ystyrir bod angen gwneud unrhyw newidiadau i'r cynnig.

4.15. **Cwestiwn 15**

4.15.1. A ydych yn cytuno y dylid pennu hyd y cofrestriad arfaethedig ar gyfer arolygydd adeiladu cofrestredig ar bedair blynedd?

**Crynodeb o'r ymatebion**

| | | |
|---|---|---|
| **Ydw** | 6 | 55% |
| **Nac ydw** | 2 | 18% |
| **Ddim yn siŵr** | 1 | 9% |
| **Ddim yn gymwys** | 1 | 9% |
| **Dim ymateb** | 1 | 9% |

4.15.2. Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn cytuno. Thema gyffredin yn y sylwadau oedd y dylid ystyried trefniadau cofrestru cyfnodol er mwyn osgoi nifer uchel o geisiadau cofrestru bob pedair blynedd.

**Ymateb y Llywodraeth**

4.15.3. O ystyried bod y mwyafrif o'r ymatebwyr yn cytuno, byddwn yn parhau â'r cynnig ond byddwn yn ystyried y sylwadau ac rydym yn gweithio'n agos gyda'r Rheoleiddiwr Diogelwch Adeiladau i sicrhau y gellir ymdrin â nifer mawr o geisiadau er mwyn osgoi unrhyw oedi.

4.16. **Cwestiwn 16**

4.16.1. A yw'r egwyddorion ar gyfer pennu ffioedd yn deg ac yn rhesymol?

**Crynodeb o'r ymatebion**

| | | |
|---|---|---|
| **Ydyn** | 4 | 36% |
| **Nac ydyn** | 2 | 18% |
| **Ddim yn siŵr** | 2 | 18% |
| **Ddim yn gymwys** | 2 | 18% |
| **Dim ymateb** | 1 | 9% |

4.16.2. Roedd llai na hanner yr ymatebwyr yn cytuno ac o ran gweddill yr ymatebwyr, gwelwyd bod nifer cyfartal yn anghytuno, yn dweud nad oeddent yn siŵr neu heb roi ateb. Themâu cyffredin yn y sylwadau oedd y dylai'r cynllun ffioedd fod yn archwiliadwy ac yn dryloyw, ac y dylid rhoi mwy o eglurder (ynghylch gofynion ffioedd blynyddol, er enghraifft). Codwyd rhai pryderon am godi ffioedd/taliadau posibl am ymchwiliadau a/neu erlyniadau lle na lwyddwyd i ganfod bai ac y gallai maint y ffioedd fod yn feichus.

**Ymateb y Llywodraeth**

4.16.3. Bydd unrhyw ffioedd/taliadau yn ystyried egwyddorion Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru, a bydd yr egwyddor mai dim ond adennill costau fydd unrhyw ffioedd/taliadau yn un o'r egwyddorion allweddol i'w dilyn wrth bennu ffioedd/taliadau. Yn ogystal, bwriad ein polisi yw na fydd unrhyw ffioedd/taliadau yn cael eu codi os na fydd ymchwiliad yn canfod bai.

4.17. **Cwestiwn 17**

4.17.1. A ydych yn cytuno bod cwmpas y swyddogaethau rydym yn cynnig y dylid codi tâl amdanynt, yn gywir?

**Crynodeb o'r ymatebion**

| | | |
|---|---|---|
| **Ydw** | 5 | 46% |
| **Nac ydw** | 1 | 9% |
| **Ddim yn siŵr** | 2 | 18% |
| **Ddim yn gymwys** | 2 | 18% |
| **Dim ymateb** | 1 | 9% |

4.17.2. Roedd hanner yr ymatebwyr a ymatebodd yn cytuno ac o ran gweddill yr ymatebwyr, gwelwyd bod nifer cyfartal yn anghytuno, yn dweud nad oeddent yn siŵr neu heb ateb. Codwyd pryderon am godi ffioedd/taliadau posibl am ymchwiliadau a/neu erlyniadau lle na lwyddwyd i ganfod bai, yn ogystal ag ymestyn y cyfnod amser ar gyfer cyhoeddi unrhyw ffioedd/taliadau newydd o saith diwrnod.

**Ymateb y Llywodraeth**

4.17.3. Bydd unrhyw ffioedd/taliadau yn ystyried egwyddorion Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru, a bydd yr egwyddor adennill costau yn un o'r egwyddorion allweddol i'w dilyn wrth bennu ffioedd/taliadau. Yn ogystal, bwriad ein polisi yw na fydd unrhyw ffioedd/taliadau yn cael eu codi os na fydd ymchwiliad yn canfod bai.

4.18. **Cwestiwn 18**

4.18.1. A oes gennych unrhyw sylwadau eraill ar y cynigion hyn?

**Crynodeb o'r ymatebion**

4.18.2. Ymhlith y sylwadau a gafwyd oedd y pryder y byddai taliadau yn feichus, a bod dymuniad i gael un system gofrestru a thaliadau neu system gyson ar gyfer Cymru a Lloegr.

**Ymateb y Llywodraeth**

4.18.3. Caiff unrhyw ffioedd/taliadau eu codi yn unol ag egwyddorion Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru gan ystyried yr egwyddor adennill costau. Mae Llywodraeth Cymru'n cytuno y byddai system gofrestru gyson ar gyfer Cymru a Lloegr o fudd i bawb, ac rydym yn gweithio'n agos gyda'r Rheoleiddiwr Diogelwch Adeiladau.

4.19. **Cwestiwn 19**

4.19.1. A ydych yn cytuno â'r cynigion mewn perthynas ag apeliadau?

**Crynodeb o'r ymatebion**

| | | |
|---|---|---|
| **Ydw** | 5 | 46% |
| **Nac ydw** | 2 | 18% |
| **Ddim yn siŵr** | 2 | 18% |
| **Ddim yn gymwys** | 1 | 9% |
| **Dim ymateb** | 1 | 9% |

4.19.2. Roedd hanner yr ymatebwyr a ymatebodd yn cytuno. Codwyd rhai pryderon ynghylch y posibilrwydd y gallai'r cyfnod o 21 diwrnod i gyflwyno apêl fod yn annigonol, arbenigedd ynadon yn y maes arbenigol hwn, awydd i gael eglurder ynghylch y prosesau, ac effaith achosion disgyblu a gyflwynwyd yn anghywir ar arolygwyr adeiladu cofrestredig a'r potensial am iawndal mewn achosion o'r fath.

**Ymateb y Llywodraeth**

4.19.3. Nodwn yr ymatebion y gallai'r cyfnod o 21 diwrnod fod yn annigonol mewn rhai achosion a byddwn yn ystyried hyn wrth ddatblygu'r rheoliadau. Rydym yn gweithio gyda'r Weinyddiaeth Gyfiawnder i sicrhau y gall ynadon wneud penderfyniadau gwybodus ynghylch materion a gyflwynir iddynt yn y maes hwn.

4.20. **Cwestiwn 20**

4.20.1. A ydych yn cytuno bod 21 diwrnod yn ddigon o amser i apêl gael ei gwneud i'r llys ynadon?

**Crynodeb o'r ymatebion**

| | | |
|---|---|---|
| **Ydw** | 4 | 36% |
| **Nac ydw** | 3 | 27% |
| **Ddim yn siŵr** | 2 | 18% |
| **Ddim yn gymwys** | 1 | 9% |
| **Dim ymateb** | 1 | 9% |

4.20.2. Roedd ychydig o dan hanner yr ymatebwyr a ymatebodd yn cytuno, ac roedd nifer mymryn yn llai yn anghytuno. Codwyd rhai pryderon ynghylch y ffaith y gallai'r cyfnod o 21 diwrnod fod yn rhy fyr a diffyg eglurder canfyddedig y broses apelio yn gyffredinol.

**Ymateb y Llywodraeth**

4.20.3. Cafwyd ymateb cymysg i'r cwestiwn hwn a byddwn yn ystyried hyn wrth ddatblygu'r rheoliadau. Nodwn y pryderon ynghylch eglurder y prosesau a byddwn yn cyfathrebu ynglŷn â hyn. Yn ogystal, rydym yn cynnig y dylid caniatáu i'r cyfnod hwn gael ei ymestyn os bydd yr apelydd a Gweinidogion Cymru (neu'u dirprwy) yn cytuno.

4.21. **Cwestiwn 21**

4.21.1. A ydych yn cytuno â'r seiliau dros apelio sy'n cael eu cynnig?

**Crynodeb o'r ymatebion**

| | | |
|---|---|---|
| **Ydw** | 8 | 73% |
| **Nac ydw** | 0 | 0% |
| **Ddim yn siŵr** | 1 | 9% |
| **Ddim yn gymwys** | 1 | 9% |
| **Dim ymateb** | 1 | 9% |

4.21.2. Roedd y mwyafrif sylweddol o'r ymatebwyr yn cytuno. Gwnaed sylwadau am y potensial i gynnwys 'bwriad maleisus' fel sail dros apelio, cais am fwy o wybodaeth am y broses apelio yn gyffredin, ac y dylid ystyried y broses i'w dilyn pe bai Llysoedd Ynadon ar gau.

**Ymateb y Llywodraeth**

4.21.3. Ar ôl ystyried yr ymatebion i gyd, rydym o'r farn bod y seiliau a gynigiwyd yn addas a'u bod eisoes yn ddigon eang i gwmpasu'r ychwanegiadau a awgrymwyd.

4.22. **Cwestiwn 22**

4.22.1. A oes gennych unrhyw sylwadau eraill i'w hychwanegu?

**Crynodeb o'r ymatebion**

4.22.2. Roedd sylwadau a oedd yn berthnasol i'r cwestiwn a ofynnwyd wedi ailadrodd ymatebion i gwestiynau blaenorol.

4.23. **Cwestiwn 23**

4.23.1. A oes sefyllfaoedd lle rydych yn credu y byddai'n briodol ei gwneud yn ofynnol i gopi o hysbysiad gwella a chopi o ddatganiad o resymau a roddwyd

i gymeradwywr rheoli adeiladu cofrestredig gael eu darparu i bob awdurdod lleol yng Nghymru?

**Crynodeb o'r ymatebion**

| | | |
|---|---|---|
| **Oes** | 5 | 46% |
| **Nac oes** | 2 | 18% |
| **Ddim yn siŵr** | 2 | 18% |
| **Ddim yn gymwys** | 1 | 9% |
| **Dim ymateb** | 1 | 9% |

4.23.2. Atebodd bron hanner yr ymatebwyr 'oes'. Ymhlith yr enghreifftiau o sefyllfaoedd a roddwyd oedd rhai lle roedd lefel uwch o risg neu 'droseddau' difrifol. Yn ogystal, awgrymodd rhai sylwadau y dylai'r holl hysbysiadau/datganiadau gael eu dal yn ganolog a bod ar gael yn gyhoeddus.

**Ymateb y Llywodraeth**

4.23.3. Er i'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr ateb 'oes', roedd yr enghreifftiau a awgrymwyd yn cyd-fynd â chynlluniau presennol ar gyfer rhannu achosion difrifol o dorri'r Rheolau Ymddygiad Proffesiynol, a drafodir yng Nghwestiwn 24, yn hytrach na hysbysiadau gwella. Ar ôl ystyried yr ymatebion, ystyrir nad oes angen gwneud unrhyw newidiadau i'r cynnig hwn.

4.24. **Cwestiwn 24**

4.24.1. A oes sefyllfaoedd lle rydych yn credu y byddai'n briodol ei gwneud yn ofynnol i gopi o hysbysiad tramgwyddo difrifol a chopi o ddatganiad o resymau a roddwyd i gymeradwywr rheoli adeiladu cofrestredig gael eu darparu i bob awdurdod lleol yng Nghymru?

**Crynodeb o'r ymatebion**

| | | |
|---|---|---|
| **Oes** | 6 | 55% |
| **Nac oes** | 1 | 9% |
| **Ddim yn siŵr** | 2 | 18% |
| **Ddim yn gymwys** | 1 | 9% |
| **Dim ymateb** | 1 | 9% |

4.24.2. Atebodd y mwyafrif o'r ymatebwyr 'oes'. Ymhlith yr enghreifftiau o sefyllfaoedd a roddwyd oedd rhai lle roedd lefel uwch o risg neu 'droseddau' difrifol. Yn ogystal, roedd thema gyffredin i'r sylwadau yn awgrymu y dylai'r holl hysbysiadau/datganiadau gael eu dal yn ganolog a bod ar gael yn gyhoeddus.

**Ymateb y Llywodraeth**

4.24.3. Am fod y mwyafrif o'r ymatebwyr yn cytuno, tybir bod y cynnig yn briodol ac nad oes angen gwneud unrhyw newidiadau i'r cynnig gwreiddiol i wneud rheoliadau er mwyn rhagnodi sefyllfaoedd ar hyn o bryd.

4.25. **Cwestiwn 25**

4.25.1. A ydych yn cytuno bod 21 diwrnod yn ddigon o amser i apêl gael ei gwneud i'r llys ynadon?

**Crynodeb o'r ymatebion**

| | | |
|---|---|---|
| **Ydw** | 5 | 46% |
| **Nac ydw** | 3 | 27% |
| **Ddim yn siŵr** | 1 | 9% |
| **Ddim yn gymwys** | 1 | 9% |
| **Dim ymateb** | 1 | 9% |

4.25.2. Roedd hanner yr ymatebwyr yn cytuno. Codwyd rhai pryderon y gallai'r cyfnod o 21 diwrnod fod yn annigonol i gasglu tystiolaeth a pharatoi apêl lawn.

**Ymateb y Llywodraeth**

4.25.3. Er bod hanner yr ymatebwyr yn cytuno, nodwn y pryderon y gallai'r cyfnod o 21 diwrnod fod yn annigonol. Felly, rydym yn cynnig y dylid caniatáu i'r cyfnod hwn gael ei ymestyn os bydd yr apelydd a Gweinidogion Cymru (neu'u dirprwy) yn cytuno.

4.26. **Cwestiwn 26**

4.26.1. A ydych yn cytuno â'r seiliau dros apelio sy'n cael eu cynnig?

**Crynodeb o'r ymatebion**

| | | |
|---|---|---|
| **Ydw** | 7 | 64% |
| **Nac ydw** | 0 | 0% |
| **Ddim yn siŵr** | 2 | 18% |
| **Ddim yn gymwys** | 1 | 9% |
| **Dim ymateb** | 1 | 9% |

4.26.2. Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn cytuno. Awgrymodd un sylw y dylid ychwanegu 'bwriad maleisus' fel sail dros apelio.

**Ymateb y Llywodraeth**

4.26.3. Rydym wedi ystyried pob ymateb. Gan fod y mwyafrif o'r ymatebwyr yn cytuno, rydym o'r farn bod y cynigion yn ddigon eang i gwmpasu seiliau perthnasol ac felly nid ydym yn cynnig y dylid gwneud unrhyw newidiadau.

4.27. **Cwestiwn 27**

4.27.1. A oes gennych unrhyw sylwadau eraill i'w hychwanegu?

**Crynodeb o'r ymatebion**

4.27.2. Ni wnaed unrhyw sylwadau.

4.28. **Cwestiwn 28**

4.28.1. A ydych yn cytuno y dylid anfon copi o orchymyn (a datganiad o resymau os bydd angen rhoi un i'r cymeradwywr rheoli adeiladu cofrestredig) ac unrhyw ddirymiad dilynol (mewn perthynas â dirymiadau o dan 58V(3) newydd) i bob awdurdod lleol yng Nghymru o dan y pedwar amgylchiad a gynigir?

**Crynodeb o'r ymatebion**

| | | |
|---|---|---|
| **Ydw** | 5 | 46% |
| **Nac ydw** | 3 | 27% |
| **Ddim yn siŵr** | 1 | 9% |
| **Ddim yn gymwys** | 1 | 9% |
| **Dim ymateb** | 1 | 9% |

4.28.2. Roedd hanner yr ymatebwyr yn cytuno. Thema gyffredin yn y sylwadau oedd y dylid ystyried canoli a chyhoeddi pob gorchymyn, p'un a gânt eu rhoi i gymeradwywyr rheoli adeiladu cofrestredig neu awdurdodau lleol.

**Ymateb y Llywodraeth**

4.28.3. Gan ystyried yr ymatebion, tybir bod y cynigion yn gymesur ac, felly, nid oes angen gwneud unrhyw newidiadau. Fodd bynnag, nodwn y sylwadau ynghylch cymhwysedd mesurau perfformiad i awdurdodau lleol yn ogystal â chymeradwywyr rheoli adeiladu cofrestredig. Caiff cynigion eu llunio mewn perthynas â'r mater hwn.

4.29. **Cwestiwn 29**

4.29.1. A ydych yn cytuno â'r cynnig y dylid “cyfyngu” ar y gweithgareddau a'r swyddogaethau yn y tabl?

**Crynodeb o'r ymatebion**

| | | |
|---|---|---|
| **Ydw** | 7 | 64% |
| **Nac ydw** | 2 | 18% |
| **Ddim yn siŵr** | 1 | 9% |
| **Ddim yn gymwys** | 0 | 0% |
| **Dim ymateb** | 1 | 9% |

4.29.2. Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn cytuno. Codwyd pryderon ynghylch effaith swyddogaethau cyfyngedig ar allu arolygydd adeiladu cofrestredig i geisio mewnbwn gan arbenigwyr anghofrestredig, e.e. Peirianwyr Tân neu Drydanol, wrth asesu cydymffurfiaeth cynlluniau, ac ynghylch natur gyfyngol 'gyffredinol' y cynigion. Yn ogystal, awgrymwyd nifer o swyddogaethau eraill y dylid ystyried eu cyfyngu.

**Ymateb y Llywodraeth**

4.29.3. Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn cytuno â'r rhestr arfaethedig o weithgareddau a swyddogaethau i gyfyngu arnynt. Nodwyd rhai swyddogaethau ychwanegol fel y'u rhestrir uchod y byddwn yn ystyried eu hychwanegu at y rhestr derfynol o gyfyngiadau, ac eithrio adran 80 o Ddeddf Adeiladu 1984, gan nad yw hon yn gysylltiedig â gweithdrefnau rheoleiddio adeiladu.

4.30. **Cwestiwn 30**

4.30.1. Yn eich barn chi, a ddylai cynlluniau anstatudol a gwybodaeth a gyflwynir yn wirfoddol gyda hysbysiadau Cychwynnol a hysbysiadau Adeiladu gael eu gwirio gan Arolygydd Adeiladu Cofrestredig a bod yn weithgaredd dan gyfyngiadau?

**Crynodeb o'r ymatebion**

| | | |
|---|---|---|
| **Dylent** | 3 | 27% |
| **Na ddylent** | 3 | 27% |
| **Ddim yn siŵr** | 3 | 27% |
| **Ddim yn gymwys** | 1 | 9% |
| **Dim ymateb** | 1 | 9% |

4.30.2. Roedd nifer cyfartal o ymatebwyr wedi dweud eu bod yn cytuno, yn anghytuno ac nad oeddent yn siŵr. Thema gyffredin oedd diffyg eglurder 'cynlluniau anstatudol' a bod gwybodaeth anstatudol yn aml y tu hwnt i gwmpas rheoliadau adeiladu ac y gallent, felly, fod y tu hwnt i arbenigedd arolygydd adeiladu cofrestredig i'w hasesu.

**Ymateb y Llywodraeth**

4.30.3. Nodwyd yr ymateb cymysg i'r cwestiwn hwn ac ar ôl adolygu'r mater, ni fyddwn yn bwrw ymlaen â'r cynnig hwn ar hyn o bryd. Felly, ni fwriedir i'r gwaith o wirio cynlluniau a gwybodaeth anstatudol fod yn swyddogaeth dan gyfyngiadau mwyach.

4.31. **Cwestiwn 31**

4.31.1. A ydych yn cytuno na ddylai fod unrhyw drefniadau trosiannol ar gyfer y swyddogaethau dan gyfyngiadau?

**Crynodeb o'r ymatebion**

| | | |
|---|---|---|
| **Ydw** | 7 | 64% |
| **Nac ydw** | 0 | 0% |
| **Ddim yn siŵr** | 3 | 27% |
| **Ddim yn gymwys** | 0 | 0% |
| **Dim ymateb** | 1 | 9% |

4.31.2. Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn cytuno. Codwyd rhai pryderon am yr effaith y gallai'r broses gofrestru ei chael pe na fyddai digon o arolygwyr adeiladu cofrestredig yn cofrestru cyn mis Ebrill 2024.

**Ymateb y Llywodraeth**

4.31.3. Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn cytuno, ni fwriedir gwneud unrhyw newidiadau i'r cynnig na ddylai fod unrhyw gyfnod pontio ar gyfer swyddogaethau dan gyfyngiadau. Nodwn y pryderon am y broses gofrestru ac mae Llywodraeth Cymru'n gweithio'n agos gyda'r Rheoleiddiwr Diogelwch Adeiladau a chyrff perthnasol i sicrhau bod y prosesau a gaiff eu rhoi ar waith yn ddigonol a bod risgiau cysylltiedig yn cael eu lleihau i'r eithaf.

4.32. **Cwestiwn 32**

4.32.1. A oes unrhyw amgylchiadau eraill, yn ychwanegol at y rhai a nodir mewn deddfwriaeth sylfaenol, lle y dylai fod yn ofynnol i gymeradwywr rheoli adeiladu cofrestredig, y person sy'n gwneud y gwaith neu'r awdurdod lleol ganslo'r hysbysiad cychwynnol?

**Crynodeb o'r ymatebion**

| | | |
|---|---|---|
| **Oes** | 1 | 9% |
| **Nac oes** | 6 | 55% |
| **Ddim yn siŵr** | 2 | 18% |
| **Ddim yn gymwys** | 1 | 9% |
| **Dim ymateb** | 1 | 9% |

4.32.2. Roedd y mwyafrif o'r ymatebion a gafwyd wedi ateb 'Nac oes'. Ni chodwyd amgylchiadau ychwanegol yn y sylwadau ond codwyd pryderon am y baich ychwanegol ar awdurdodau lleol i ganslo hysbysiadau cychwynnol lle bo'r cymeradwywr rheoli adeiladu cofrestredig wedi cael ei gosbi o fewn saith diwrnod, a nodwyd hefyd y dylid cael un ffurflen ganslo syml. Mynegodd un sylw bryder am nifer y rheoliadau sy'n cael eu cyflwyno.

**Ymateb y Llywodraeth**

4.32.3. Gan nad oes unrhyw amgylchiadau ychwanegol wedi cael eu cynnig drwy'r ymgynghoriad, ni chaiff y cynigion eu newid ond cânt eu hadolygu'n gyson wrth iddynt gael eu rhoi ar waith. Caiff ffurflenni eu hadolygu i gefnogi'r newidiadau deddfwriaethol. O safbwynt y gofyniad i awdurdod lleol ganslo hysbysiadau cychwynnol lle bo cymeradwywyr rheoli adeiladu cofrestredig wedi cael eu cosbi, tybir bod angen canslo'r hysbysiadau er mwyn rhoi hysbysiad ffurfiol i'r cymeradwywr rheoli adeiladu cofrestredig a'r deiliad dyletswydd.

4.33. **Cwestiwn 33**

4.33.1. A ydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r wybodaeth sydd i'w chynnwys yn yr hysbysiadau canslo uchod?

**Crynodeb o'r ymatebion**

| | | |
|---|---|---|
| **Cytuno** | 7 | 64% |
| **Anghytuno** | 1 | 9% |
| **Ddim yn siŵr** | 2 | 18% |
| **Ddim yn gymwys** | 0 | 0% |
| **Dim ymateb** | 1 | 9% |

4.33.2. Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn cytuno. Ymhlith y sylwadau roedd awgrymiadau am wybodaeth ychwanegol i'w chynnwys fel lleoliad y gwaith a'r rheswm dros ganslo.

**Ymateb y Llywodraeth**

4.33.3. Caiff ffurflenni eu hadolygu i gefnogi'r newidiadau deddfwriaethol. Caiff y sylwadau hyn eu hystyried ymhellach yn ystod y gwaith adolygu hwnnw.

4.34. **Cwestiwn 34**

4.34.1. A ydych yn cytuno neu'n anghytuno bod y categorïau ym mharagraffau 92-96 yn cwmpasu'r amgylchiadau angenrheidiol i hysbysiad cychwynnol newydd gael ei gyflwyno?

**Crynodeb o'r ymatebion**

| | | |
|---|---|---|
| **Cytuno** | 7 | 64% |
| **Anghytuno** | 1 | 9% |
| **Ddim yn siŵr** | 1 | 9% |
| **Ddim yn gymwys** | 1 | 9% |
| **Dim ymateb** | 1 | 9% |

4.34.2. Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn cytuno. Ymhlith y sylwadau roedd yr awgrym y dylid cynnwys rhesymau eraill dros ganslo yn y cymal dod â busnes i ben neu gymal tebyg (marwolaeth yr unig gymeradwywr rheoli adeiladu cofrestredig neu'r arolygydd adeiladu cofrestredig cyfrifol, colli galluedd, colli yswiriant, rhyfel neu weithred Duw ac ati).

**Ymateb y Llywodraeth**

4.34.3. Ar ôl ystyried yr holl sylwadau, ni thybir bod angen gwneud unrhyw newidiadau i'r cynigion ar hyn o bryd. Nodwn y sylwadau ynghylch y cymal dod â busnes a chânt eu hystyried pan gaiff y rheoliadau perthnasol eu datblygu.

4.35. **Cwestiwn 35**

4.35.1. A ydych yn cytuno neu'n anghytuno ag amgylchiad ychwanegol busnes yn dod i ben, fel y'i nodir ym mharagraff 96, lle y gellir cyflwyno hysbysiad cychwynnol newydd?

**Crynodeb o'r ymatebion**

| | | |
|---|---|---|
| **Cytuno** | 8 | 73% |
| **Anghytuno** | 1 | 9% |
| **Ddim yn siŵr** | 1 | 9% |
| **Ddim yn gymwys** | 0 | 0% |
| **Dim ymateb** | 1 | 9% |

4.35.2. Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn cytuno. Ymhlith y sylwadau roedd yr awgrym y gellid ystyried ansolfedd cymeradwywyr rheoli adeiladu cofrestredig (yn sgil cyfarwyddwyr yn cofrestru'n gymeradwywr rheoli adeiladu cofrestredig newydd), amgylchiadau lle na all y cymeradwywr rheoli adeiladu cofrestredig sy'n ymadael gyhoeddi hysbysiad cychwynnol, a ph'un a ddylid cael trefniadau trosiannol rhwng hysbysiadau cychwynnol.

**Ymateb y Llywodraeth**

4.35.3. Ar ôl ystyried yr holl sylwadau, ni thybir bod angen gwneud unrhyw newidiadau i'r cynigion ar hyn o bryd. Fodd bynnag, nodwn y sylwadau ynghylch y cymal dod â busnes i ben a chânt eu hystyried pan gaiff y rheoliadau perthnasol eu drafftio.

4.36. **Cwestiwn 36**

4.36.1. A yw cyfnod o saith diwrnod yn ddigonol i gymeradwywr rheoli adeiladu cofrestredig newydd gyflwyno hysbysiad cychwynnol newydd?

**Crynodeb o'r ymatebion**

| | | |
|---|---|---|
| **Ydy** | 5 | 46% |
| **Nac ydy** | 2 | 18% |
| **Ddim yn siŵr** | 3 | 27% |
| **Ddim yn gymwys** | 0 | 0% |
| **Dim ymateb** | 1 | 9% |

4.36.2. Roedd hanner yr ymatebwyr a ymatebodd yn cytuno. Codwyd rhai pryderon y gallai'r cyfnod o saith diwrnod fod yn rhy fyr i gymeradwywr rheoli adeiladu cofrestredig gael ei benodi ac asesu'r cynlluniau/gwaith presennol.

**Ymateb y Llywodraeth**

4.36.3. Nodwn y pryder y gallai'r cyfnod o saith diwrnod fod yn rhy fyr. Rydym o'r farn o hyd bod y cyfnod hwn yn ddigonol ac ni thybir bod unrhyw newidiadau i'r cynigion yn angenrheidiol/buddiol ar hyn o bryd.

4.37. **Cwestiwn 37**

4.37.1. A ydych yn cytuno neu'n anghytuno bod y categorïau yn cwmpasu'r amgylchiadau angenrheidiol i hysbysiad cychwynnol newydd gael ei gyflwyno?

**Crynodeb o'r ymatebion**

| | | |
|---|---|---|
| **Cytuno** | 8 | 73% |
| **Anghytuno** | 0 | 0% |
| **Ddim yn siŵr** | 1 | 9% |
| **Ddim yn gymwys** | 1 | 9% |
| **Dim ymateb** | 1 | 9% |

4.37.2. Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn cytuno. Ymhlith y sylwadau roedd yr awgrym y dylid cynnwys rhesymau eraill dros hysbysiad cychwynnol newydd (marwolaeth yr unig gymeradwywr rheoli adeiladu cofrestredig neu'r arolygydd adeiladu cofrestredig cyfrifol, colli galluedd, colli yswiriant, rhyfel neu weithred Duw ac ati).

**Ymateb y Llywodraeth**

4.37.3. Ar ôl ystyried yr ymatebion, ni thybir bod angen gwneud unrhyw newidiadau i'r cynigion ar hyn o bryd. Nodwn y sylwadau ynghylch y cymal dod â busnes a chânt eu hystyried pan gaiff y rheoliadau perthnasol eu datblygu.

4.38. **Cwestiwn 38**

4.38.1. A ydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig i ragnodi bod yn rhaid i'r wybodaeth a nodir ym mharagraff 101 gael ei chynnwys yn y dystysgrif drosglwyddo?

**Crynodeb o'r ymatebion**

| | | |
|---|---|---|
| **Cytuno** | 7 | 64% |
| **Anghytuno** | 2 | 18% |
| **Ddim yn siŵr** | 1 | 9% |
| **Ddim yn gymwys** | 0 | 0% |
| **Dim ymateb** | 1 | 9% |

4.38.2. Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn cytuno. Codwyd pryderon ynghylch eglurder y manylion sydd eu hangen a'r potensial am anghytundeb rhwng awdurdodau lleol a chymeradwywyr rheoli adeiladu cofrestredig, a nodwyd hefyd y dylai'r dystysgrif gynnwys amodau cynllunio sy'n gosod gofyniad (e.e. Rheoliad 36(2)(b) - gofyniad dewisol ar gyfer effeithlonrwydd dŵr o 110 litr y pen fesul diwrnod). Yn ogystal, awgrymwyd y dylid cynnwys dogfennau ategol ar y cyd ag adroddiadau arolygu.

**Ymateb y Llywodraeth**

4.38.3. Ar ôl ystyried yr ymatebion, ni thybir bod angen gwneud unrhyw newidiadau i'r cynigion. Nodwn y pryderon am lefel y manylion sydd eu hangen a'r potensial am anghytundeb, ond tybir bod darpariaethau i'r awdurdod lleol ofyn am ragor o wybodaeth yn ddigonol i ddatrys problemau posibl o'r fath. O safbwynt cynnwys amodau cynllunio ar y dystysgrif drosglwyddo, nid yw hyn yn gymwys i brosesau rheoliadau adeiladu yng Nghymru ar hyn o bryd.

4.39. **Cwestiwn 39**

4.39.1. Os bydd awdurdod lleol wedi derbyn hysbysiad cychwynnol gan gymeradwywr rheoli adeiladu cofrestredig newydd, a yw'r cyfnod o 21 diwrnod yn rhesymol i'r cymeradwywr rheoli adeiladu cofrestredig roi tystysgrif ac adroddiad trosglwyddo?

**Crynodeb o'r ymatebion**

| | | |
|---|---|---|
| **Ydy** | 4 | 36% |
| **Nac ydy** | 1 | 9% |
| **Ddim yn siŵr** | 4 | 36% |
| **Ddim yn gymwys** | 1 | 9% |
| **Dim ymateb** | 1 | 9% |

4.39.2. Roedd ychydig o dan hanner yr ymatebwyr a ymatebodd yn cytuno, ac roedd yr un nifer wedi dweud nad oeddent yn siŵr. Pryder cyffredin a godwyd oedd p'un a oedd 21 diwrnod yn rhesymol yn achos gwaith cymhleth

a/neu lle nad yw'r cymeradwywr rheoli adeiladu cofrestredig blaenorol wedi darparu'r wybodaeth. Awgrymwyd os yw awdurdodau lleol yn cael 28 diwrnod i adolygu, y dylai cymeradwywyr rheoli adeiladu cofrestredig gael yr un faint o amser. Hefyd, nodwyd pryder ynghylch parhau â gwaith hanfodol i ddiogelwch yn ystod y cyfnod hwn.

**Ymateb y Llywodraeth**

4.39.3. Nodwn y pryderon ynghylch yr amserlen bosibl o 21 diwrnod, ond am fod y cynnig yn cynnwys y ddarpariaeth y gellid ymestyn yr amserlen hon drwy gytundeb yr awdurdod lleol (adran 53B(7)(b) o Ddeddf Adeiladu 1984), tybir ei bod yn amserlen briodol. O safbwynt y pryderon ynghylch parhau â gwaith hanfodol i ddiogelwch, byddwn yn ystyried y pryder hwn ymhellach.

4.40. **Cwestiwn 40**

4.40.1. A yw'r cyfnod o 21 diwrnod i'r awdurdod lleol ystyried y dystysgrif ac adroddiad trosglwyddo a phenderfynu a ddylid eu derbyn neu eu gwrthod yn rhesymol, ar hyn o bryd caiff y cyfnod hwn ei ymestyn am 7 diwrnod o dan rai amgylchiadau (gweler adran 53C newydd)?

**Crynodeb o'r ymatebion**

| | | |
|---|---|---|
| **Ydy** | 5 | 46% |
| **Nac ydy** | 2 | 18% |
| **Ddim yn siŵr** | 3 | 27% |
| **Ddim yn gymwys** | 0 | 0% |
| **Dim ymateb** | 1 | 9% |

4.40.2. Er bod hanner yr ymatebwyr yn cytuno, cafwyd sylwadau yn awgrymu y dylid bod modd ymestyn y cyfnod hwn lle bo angen. Hefyd, nodwyd pryder ynghylch parhau â gwaith hanfodol i ddiogelwch yn ystod y cyfnod hwn.

**Ymateb y Llywodraeth**

4.41. Er bod hanner yr ymatebwyr yn cytuno bod y cyfnod yn rhesymol, caiff yr awgrym yn y sylwadau y dylid bod modd ymestyn y cyfnod ei ystyried ymhellach wrth i'r rheoliadau perthnasol gael eu datblygu. O safbwynt y pryderon ynghylch parhau â gwaith hanfodol i ddiogelwch, byddwn yn ystyried y pryder hwn ymhellach.

**Cwestiwn 41**

4.41.1. Ar ôl iddo gael tystysgrif ac adroddiad trosglwyddo, os bydd awdurdod lleol wedi gofyn am wybodaeth ychwanegol, a yw'r cyfnod o saith diwrnod i'r cymeradwywr rheoli adeiladu cofrestredig newydd ddarparu'r wybodaeth yn rhesymol?

**Crynodeb o'r ymatebion**

| | | |
|---|---|---|
| **Ydy** | 5 | 46% |
| **Nac ydy** | 2 | 18% |
| **Ddim yn siŵr** | 3 | 27% |
| **Ddim yn gymwys** | 0 | 0% |
| **Dim ymateb** | 1 | 9% |

4.41.2. Roedd hanner yr ymatebwyr yn cytuno. Thema gyffredin yn y sylwadau oedd y gallai'r cyfnod hwn fod yn annigonol i ddarparu'r holl wybodaeth sydd ei hangen ac y dylid bod modd ei ymestyn lle bo angen. Hefyd, nodwyd pryder ynghylch parhau â gwaith hanfodol i ddiogelwch yn ystod y cyfnod hwn.

**Ymateb y Llywodraeth**

4.41.3. Er bod hanner yr ymatebwyr yn cytuno â'r cwestiwn, caiff yr awgrym yn y sylwadau y dylid bod modd ymestyn y cyfnod ei ystyried ymhellach wrth i'r rheoliadau perthnasol gael eu datblygu. O safbwynt y pryderon ynghylch parhau â gwaith hanfodol i ddiogelwch, byddwn yn ystyried y pryder hwn wrth i'r rheoliadau gael eu datblygu.

4.42. **Cwestiwn 42**

4.42.1. A ydych yn cytuno neu'n anghytuno bod y rhestr uchod yn nodi ar ba seiliau y dylai awdurdod lleol allu gwrthod tystysgrif ac adroddiad trosglwyddo?

**Crynodeb o'r ymatebion**

| | | |
|---|---|---|
| **Cytuno** | 6 | 55% |
| **Anghytuno** | 1 | 9% |
| **Ddim yn siŵr** | 2 | 18% |
| **Ddim yn gymwys** | 1 | 9% |
| **Dim ymateb** | 1 | 9% |

4.42.2. Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn cytuno. Codwyd rhai pryderon y gallai'r gallu i awdurdodau lleol ddechrau camau gorfodi atal unrhyw brosesau trosglwyddo o un cymeradwywr rheoli adeiladu cofrestredig i un arall o dan unrhyw amgylchiadau, na fyddai cymeradwywr rheoli adeiladu cofrestredig yn gallu cadarnhau cydymffurfiaeth gwaith anorffenedig am ei fod yn anorffenedig, a mater gorfodi ac unioni gweithdrefnol lle na ddylai awdurdod lleol dderbyn hysbysiad cychwynnol yn hytrach na gwrthod tystysgrif ac adroddiad trosglwyddo yn ddiweddarach.

**Ymateb y Llywodraeth**

4.42.3. Ar ôl ystyried yr ymatebion, rydym yn bwriadu bwrw ymlaen yn unol â chynigion yr ymgynghoriad ond byddwn yn adolygu'r mater. Nodwn y pryderon ynghylch methiant y cymeradwywr rheoli adeiladu cofrestredig i

gadarnhau cydymffurfiaeth â'r rheoliadau adeiladu am na fydd y gwaith wedi'i gwblhau'n llawn. Felly, byddwn yn ceisio nodi'n glir mai nod y polisi ar gyfer tystysgrifau trosglwyddo yw sicrhau nad yw'r gwaith adeiladu a gwblhawyd hyd yma (yn hytrach na'r prosiect gorffenedig) yn torri unrhyw un o ddarpariaethau'r rheoliadau adeiladu. O safbwynt pryderon ynghylch camau gorfodi gan awdurdod lleol, gallai hyn ddigwydd ar ôl i'r hysbysiad cychwynnol gael ei ganslo (lle mae amgylchiadau rhagnodedig yn gymwys, fel y nodir ym mharagraff 100 o'r ddogfen ymgynghori). Yn yr un modd, mewn perthynas â cheisiadau unioni, caiff y rhain eu cynnwys yn y rhestr oherwydd gall awdurdod lleol fod wedi cael cais unioni ar ôl hysbysiad canslo a chyn cael tystysgrif drosglwyddo (unwaith eto, lle bo amgylchiadau rhagnodedig yn gymwys).

4.43. **Cwestiwn 43**

4.43.1. A yw'r cyfnod rhagnodedig o 21 diwrnod i'r cymeradwywr rheoli adeiladu cofrestredig “sy'n ymadael” roi'r wybodaeth hon yn rhesymol?

**Crynodeb o'r ymatebion**

| | | |
|---|---|---|
| **Ydy** | 6 | 55% |
| **Nac ydy** | 2 | 18% |
| **Ddim yn siŵr** | 2 | 18% |
| **Ddim yn gymwys** | 0 | 0% |
| **Dim ymateb** | 1 | 9% |

4.43.2. Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn cytuno. Codwyd pryderon y gallai fod angen ymestyn y cyfnod hwn, drwy gytundeb, lle bo llawer o wybodaeth i'w throsglwyddo, yn ogystal â ph'un a oes darpariaethau ar gyfer achosion lle na all y cymeradwywr rheoli adeiladu cofrestredig drosglwyddo gwybodaeth, fel ansolfedd, neu lle nad yw'n bodloni'r gofyniad i ddarparu gwybodaeth. Awgrymwyd hefyd y dylai'r amserlenni ar gyfer darparu gwybodaeth a ddisgrifir yn adran 53(4C) fod yn gyson ag amserlenni awdurdodau lleol.

**Ymateb y Llywodraeth**

4.44. Nodwn fod y mwyafrif o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig, a nodwn hefyd y sylwadau cymysg a gafwyd o safbwynt hyd y cyfnod. Rydym o'r farn bod y cyfnod arfaethedig yn rhesymol. Fodd bynnag, caiff y sylwadau yn awgrymu y dylid bod modd ymestyn y cyfnod o dan rai amgylchiadau eu hystyried pan gaiff y rheoliadau perthnasol eu datblygu. O safbwynt yr awgrym i gysoni amserlenni, rydym yn cynnig o hyd y dylid rhoi 28 diwrnod, yn hytrach nag 21 diwrnod, i'r awdurdod lleol ystyried y dystysgrif ac adroddiad trosglwyddo a gofyn am wybodaeth ychwanegol.

**Cwestiwn 44**

4.44.1. A ydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylid cynnwys y wybodaeth ychwanegol ar y ffurflenni perthnasol?

**Crynodeb o'r ymatebion**

| | | |
|---|---|---|
| **Cytuno** | 7 | 64% |
| **Anghytuno** | 0 | 0% |
| **Ddim yn siŵr** | 2 | 18% |
| **Ddim yn gymwys** | 0 | 0% |
| **Dim ymateb** | 2 | 18% |

4.44.2. Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn cytuno. Ymhlith y sylwadau a gafwyd oedd y dylai'r ffurflenni nodi'n benodol pa wybodaeth sydd ei hangen (gan gynnwys a oes modd enwi adrannau yn hytrach nag unigolion) ac y dylai ffurflenni awdurdodau lleol ofyn am yr un wybodaeth.

**Ymateb y Llywodraeth**

4.44.3. Caiff ffurflenni eu hadolygu i gefnogi'r newidiadau deddfwriaethol a chaiff y sylwadau hyn eu hystyried ymhellach fel rhan o'r gwaith adolygu hwnnw.

4.45. **Cwestiwn 45**

4.45.1. Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai'r polisïau arfaethedig yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol o ran cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac o ran peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Beth fyddai'r effeithiau yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol neu liniaru’r effeithiau negyddol?

**Crynodeb o'r ymatebion**

4.45.2. Cododd un ymatebydd bryder ynghylch yr oedi y gallai cyfieithiadau Cymraeg ei achosi. Nododd sylw arall y byddai ffurflenni a hysbysiadau dwyieithog yn gadarnhaol i'r Gymraeg.

**Ymateb y Llywodraeth**

4.45.3. Byddwn yn sicrhau bod y rheoliadau a'r canllawiau'n cael eu cyhoeddi yn y ddwy iaith a bod Safonau'r Gymraeg yn cael eu bodloni.

4.46. **Cwestiwn 46**

4.46.1. Esboniwch sut rydych yn credu y gellid llunio neu newid y polisïau arfaethedig er mwyn cael effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg, heb unrhyw effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Nodwch yma:

**Crynodeb o'r ymatebion**

4.46.2. Ni chafwyd sylwadau perthnasol.

4.47. **Cwestiwn 47**

4.47.1. Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, defnyddiwch y lle gwag hwn i roi gwybod amdanynt. Nodwch yma:

**Crynodeb o'r ymatebion**

4.47.2. Cafwyd sylwadau helaeth ynghylch trin adeiladau o adeiladwaith traddodiadol, y dylai'r rhain gael eu trin fel gwaith adeiladu risg uwch a materion yn ymwneud â chyfyngiadau mewn Dogfennau Cymeradwy, yn enwedig Rhan L.

4.47.3. Cafwyd ymholiad ynghylch bwriad y polisi wrth briodoli gwaith adeiladu risg uwch yn gyfan gwbl i awdurdodau lleol yng Nghymru a sut y gallai hyn amharu ar allu'r diwydiant i oruchwylio gwaith o'r fath.

**Ymateb y Llywodraeth**

4.47.4. Er nad oes unrhyw gynlluniau ar hyn o bryd i gynnwys adeiladau o adeiladwaith traddodiadol o fewn y diffiniad o waith adeiladu risg uwch, nodwn y sylwadau a chânt eu hystyried ymhellach maes o law.

4.47.5. Un o brif ddibenion y diwygiadau i wella trefniadau rheoleiddio'r diwydiant adeiladu yw atal y diwydiant ehangach rhag goruchwylio gwaith adeiladu risg uwch. Yn Lloegr, gwnaed hyn drwy gyflwyno'r Rheoleiddiwr Diogelwch Adeiladau. Fodd bynnag, yng Nghymru, o ganlyniad i'r gwahaniaeth o ran y graddau y mae'r mater hwn yn codi, tybir ei bod yn briodol rhoi'r cyfrifoldeb hwn i awdurdodau lleol.

# 5. Y Camau Nesaf

5.1. Caiff y rheoliadau angenrheidiol eu datblygu ymhellach nawr yn unol ag ymatebion y Llywodraeth uchod, a'r bwriad yw eu gwneud yn ddiweddarach eleni. Caiff y manylion y mae angen eu cynnwys yn y rheoliadau/canllawiau eu hystyried ymhellach wrth iddynt gael eu datblygu a gall hyn olygu y bydd angen datblygu'r polisi ymhellach o ganlyniad i natur dechnegol rhai o'r materion yr ymgynghorwyd arnynt. Caiff y wybodaeth hon ei rhannu â rhanddeiliaid.

5.2. Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda'r Rheoleiddiwr Diogelwch Adeiladau i weithredu darpariaethau er mwyn gallu sicrhau cysondeb lle bo modd wrth reoleiddio'r proffesiwn rheoli adeiladu.